Adroddiad ar adolygiad annibynnol o gynnydd yn

# CEF Y Parc

gan Brif Arolygydd Carchardai EF

5–7 Ionawr 2026



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Adran 1 | Crynodeb y Prif Arolygydd | **Error! Bookmark not defined.** |
| Adran 2 | Canfyddiadau allweddol | **Error! Bookmark not defined.** |
| Adran 3 | Cynnydd yn erbyn ein pryderon | **Error! Bookmark not defined.** |
| Adran 4 | Crynodeb o'r dyfarniadau | 20 |
| | Atodiad I — Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 222 |
| | Atodiad II — Geirfa | 244 |

# Section 1 Crynodeb y Prif Arolygydd


1.1 Carchar ailsefydlu categori C yw CEF Y Parc sy’n dal troseddwyr ifanc ac oedolion gwrywaidd sydd wedi’u dyfarnu’n euog, a throseddwyr rhyw sydd wedi’u dyfarnu’n euog ac sydd ar remánd. Yn ogystal, mae gan y carchar uned fach ar gyfer plant, sy’n cael ei harolygu ar wahân.

1.2 Roedd yr ymweliad adolygu hwn yn dilyn pryderon a godwyd yn ein harolygiad diwethaf o CEF Y Parc ym mis Ionawr 2025.

## Yr hyn a welsom yn yr arolygiad diwethaf

1.3 Yn ein harolygiadau blaenorol yn CEF Y Parc yn 2022 a 2025, gwnaethom y dyfarniadau canlynol am ganlyniadau ar gyfer carcharorion.

**Ffigur 1: Canlyniadau carchar iach CEF Y Parc yn 2022 a 2025**
Sylwer: daeth adsefydlu a chynllunio i ryddhau yn ‘paratoi i ryddhau’ ym mis Hydref 2023.




1.4 Yn yr arolygiad diwethaf, ym mis Ionawr 2025, canfuwyd dirywiad difrifol o ran safonau ar draws pob un o’n profion carchardai iach. Fel carchar a oedd yn cael ei ystyried yn un o'r carchardai mwyaf llwyddiannus yng Nghymru a Lloegr ar un adeg, wynebodd Y Parc heriau sylweddol yn dilyn newidiadau o ran arweinyddiaeth a newidiadau cytundebol. Roedd trosiant staff wedi cynyddu ar ôl hynny, ac roedd morâl wedi gostwng.

1.5 Cafodd y carchar ei effeithio’n ddifrifol gan gyffuriau yn cyrraedd y carchar, gyda dronau yn risg benodol, a gyfrannodd at glwstwr o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag opioidau synthetig a sawl marwolaeth hunanachosedig ddechrau 2024.

1.6 Adeg yr arolygiad hwn, roedd lefelau trais a hunan-niweidio yn uchel. Soniodd carcharorion am rwystredigaeth gydag arferion anghyson a chyfnodau hir dan glo, gyda llawer gormod o ddynion yn cael eu cloi yn

eu celloedd hyd at 21 awr y dydd. Cafwyd oedi wrth neilltuo gwaith, hyfforddiant neu addysg i’r carcharorion, ac roeddent yn rhwystredig gyda diffyg dilyniant o ran eu dedfryd.

## Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad adolygu hwn

1.7 Er i ni weld cynnydd annigonol mewn dros hanner y pryderon a adolygwyd, gwelsom hefyd arweinwyr ymrwymedig (gweler Geirfa) a staff yn gwneud ymdrech go iawn i ysgogi gwelliant, a oedd yn galonogol. Serch hynny, o ganlyniad i gyfyngiadau staff parhaus a chyfyngiadau ar yr arferion, nid oedd canlyniadau gwell mewn rhai meysydd wedi'u cyflawni eto.

1.8 Roedd arweinwyr wedi gwneud ymdrech sylweddol i leihau’r cyffuriau anghyfreithlon a oedd yn cyrraedd y carchar; roedd gosod ffenestri diogel yn dod yn ei flaen yn dda, ac roedd arweinwyr yn gwneud defnydd da o dechnoleg ac adnoddau. O ganlyniad, cafwyd gostyngiad yn y defnydd o gyffuriau.

1.9 Roedd gweithio mewn partneriaeth, rhwng darparwyr ac ymhlith adrannau, yn gweithio'n llawer mwy effeithiol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd. Roedd gan arweinwyr oruchwyliaeth well, ac roeddent bellach yn defnyddio data i ysgogi gwelliannau, yn enwedig o fewn meysydd diogelwch a gweithgaredd pwrpasol.

1.10 Roedd cynnydd mewn sawl maes yn dal i gael ei rwystro gan gyfyngiadau sylweddol i'r drefn ddyddiol. Yn ystod y chwe mis diwethaf, cafodd ei chwtogi'n aml, gan arwain at gyfnodau hir dan glo, a charcharorion a gweithwyr ddim yn cael addysg na gwaith. Roedd hyn yn bennaf oherwydd prinder staff a achoswyd gan gyfraddau gwael o ran cadw staff, oedi wrth fetio, ac ymrwymiadau hebrwng i’r ysbyty yn allanol.


1.11 Roedd diffyg personél hefyd yn cyfyngu ar gynnydd mewn meysydd hollbwysig eraill, gan gynnwys cymorth annigonol i ddilyniant dedfrydau a gwendidau o ran diogelu’r cyhoedd. Heb adnoddau ac arferion digonol, bydd y carchar yn parhau i’w chael hi’n anodd cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol o ran canlyniadau ar gyfer carcharorion.

**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai EF
Ionawr 2026

# Section 2 Canfyddiadau allweddol

2.1 Yn ystod yr ymweliad adolygiad annibynnol o gynnydd hwn, aethom ar drywydd 11 o bryderon o'n harolygiad diweddaraf ym mis Ionawr 2025. Roeddem o'r farn bod cynnydd da mewn un pryder, cynnydd rhesymol mewn tri phryder a chynnydd annigonol mewn saith pryder.

**Ffigur 2: Cynnydd ar bryderon o arolygiad 2025 (n=11)**




## Arferion positif nodedig

2.2 Rydym yn diffinio arferion positif nodedig fel:

> Tystiolaeth bod ein disgwyliadau'n cael eu bodloni i sicrhau canlyniadau arbennig o dda i garcharorion, a/neu ddulliau arbennig o wreiddiol neu greadigol o ddatrys problemau.

2.3 Ni ddaeth yr arolygwyr o hyd i unrhyw enghraifft o arferion positif nodedig yn ystod yr adolygiad annibynnol hwn o gynnydd.

# Section 3 Cynnydd yn erbyn ein pryderon

Mae'r canlynol yn rhoi disgrifiad byr o'n canfyddiadau mewn perthynas â phob pryder yr aethpwyd ar eu trywydd ar ôl yr arolwg llawn yn 2025.

## Annog ymddygiad positif

**Pryder:** Roedd nifer y digwyddiadau treisgar yn uchel. Roedd dealltwriaeth arweinwyr o'r achosion yn gyfyngedig ac nid oedd eu hymateb wedi cael effaith eto.

3.1 Roedd y cyfraddau trais cyffredinol a gofnodwyd yn ystod y chwe mis diwethaf wedi codi 25%, o'i gymharu â'r un cyfnod cyn yr arolygiad, a pharhaodd yn uwch na charchardai tebyg. Mae'n galonogol bod hyn wedi gostwng yn gyson yn ystod y tri mis diwethaf.

3.2 Er bod arweinwyr wedi nodi'r prif ffactorau a oedd yn ysgogi trais, roedd eu dealltwriaeth o'r materion hyn yn parhau i fod yn gyfyngedig. Serch hynny, roedd rhai camau'n cael eu cymryd; er enghraifft, gan mai dyled oedd y prif beth a oedd yn cyfrannu at drais, roedd strategaeth ddyled ddiwygiedig yn cael ei datblygu i roi pwyslais o'r newydd ar y broblem hon.

3.3 Dangosodd data fod bloc B yn fan problemus o ran trais. Felly, roedd arweinwyr wedi ymgynghori â charcharorion a chyflwyno llwybr blaengar, a oedd wedi lleihau nifer yr achosion. Ychwanegwyd gwiriadau ychwanegol at y broses yn ystod y dyddiau cynnar er mwyn mynd i'r afael â'r lefel uwch o drais yn ystod y cyfnod hwn.

3.4 Roedd goruchwyliaeth o fewn y swyddogaeth ddiogelwch wedi gwella. Roedd y tîm diogelwch bellach wedi ennill ei blwyf ac wedi gweithio'n galed i ymgorffori prosesau sylfaenol ac i wella'r broses o gasglu data. Roedd arweinwyr yn cwrdd bob wythnos i adolygu'r data, ac yn y cyfarfodydd strategol roeddent yn bwrw golwg ar dueddiadau dros gylchoedd o dri mis. Roedd mwy o staff o adrannau ar draws y carchar yn bresennol yn y cyfarfodydd strategol erbyn hyn.

3.5 Roedd arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r gwendidau yn y system ddyfarnu, ond nid oeddent yn gwneud digon i ysgogi carcharorion i ymddwyn. Defnyddiwyd cynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP; gweler Geirfa) i reoli carcharorion a oedd yn gyflawnwyr neu'n ddioddefwyr trais, yn ogystal â'r rhai a oedd yn ynysu wrth eu cyfoedion. Serch hynny, er gwaethaf prosesau sicrhau ansawdd gwell, roedd gwendidau yn ansawdd y cymorth yn parhau; roedd y targedau a'r cynlluniau'n generig, nid oedd staff yr adain yn weladwy, ac roedd dros hanner y rhai ar CSIP agored yn ddi-waith.

3.6 Roedd cyflwyno rolau cymorth pwrpasol i gyfoedion (STEP [*smarter teamwork empowering prisoners*] ac Energise) yn bositif. Roedd y

mentrau hyn yn cynnwys hyfforddiant i gefnogi rheoleiddio emosiynol a datrys gwrthdaro. Roedd cefnogwyr cyfoedion y gwnaethom ni siarad â nhw yn frwdfrydig gydag ymdeimlad cryf o bwrpas. Er mai dyddiau cynnar yw hyn ac nad yw wedi’i gwreiddio'n llawn eto, roedd yn fenter addawol (gweler paragraff 3.19).




**Gweithwyr cymorth i gyfoedion**

3.7 Roeddem o'r farn bod y carchar wedi gwneud cynnydd annigonol yn erbyn y pryder hwn.

## Diogelwch

**Pryder:** Roedd argaeledd a’r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon yn gyffredin. Roedd bron i draean o holl ganlyniadau hapbrofion cyffuriau yn gadarnhaol ac, yn ein harolwg, dywedodd dros hanner y carcharorion ei bod yn hawdd cael cyffuriau yn y carchar.

3.8 Roedd hi dal yn llawer rhy hawdd dod o hyd i gyffuriau yn Y Parc. Serch hynny, roedd ymdrechion G4S, gyda chefnogaeth Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS), i leihau’r cyflenwad a oedd yn cyrraedd y carchar, i’w ganmol. Yn ystod y chwe mis diwethaf, roedd 24% o’r profion ar hap wedi bod yn bositif, o’i gymharu â 31% cyn yr arolygiad diwethaf.

3.9 Ers yr arolygiad, cafwyd marwolaeth yn y carchar a oedd yn cael ei amau o fod yn gysylltiedig â chyffuriau. Roedd yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth a’r crwner yn dal i ymchwilio.

3.10 Roedd y buddsoddi mewn offer a seilwaith er mwyn atal cyffuriau rhag cyrraedd y carchar drwy ddronau yn drawiadol. Roedd y gwaith i newid

ffenestri'r celloedd wedi dod yn ei flaen yn dda, ac roedd arweinwyr wedi blaenoriaethu'n briodol yr ardaloedd mwyaf problemus. At hynny, roedd arweinwyr yn defnyddio technoleg newydd.





**Gosod ffenestri**

3.11 Roedd arweinwyr wedi cydnabod bod mynd i'r afael â'r defnydd o ddronau wedi arwain at ddefnydd cynyddol o lwybrau eraill er mwyn dod â chyffuriau i mewn i'r carchar, fel drwy ymweliadau ac eiddo, ac roeddent yn defnyddio mesurau amgen yn effeithiol i gyfyngu ar y cyflenwad. Roedd chwiliadau gan staff wedi cynyddu'n sylweddol ers yr arolygiad, wedi'i gefnogi gan y defnydd deinamig o ddyfais symudol i ganfod eitemau cudd. Roedd yr offer hwn yn cael ei ddefnyddio hefyd ar garcharorion, er mwyn tarfu ar y broses o symud eitemau anghyfreithlon o amgylch y carchar. Yn ogystal, cafwyd rhaglen gadarn o brofion amheuaeth, gyda'r ail nifer uchaf o brofion yn genedlaethol, sy'n dangos eu bod yn effeithiol o ran herio carcharorion o dan amheuaeth o gymryd sylweddau anghyfreithlon.

3.12 Roedd rheolwr penodedig wedi'i benodi i gryfhau'r strategaeth gyffuriau ac i gefnogi'r gwaith adfer. Mae'r rôl wedi gwella cysylltiadau rhwng y tîm diogelwch a'r strategaeth gyffuriau, ac mae'r person a benodwyd wedi sefydlu perthnasoedd positif gyda charcharorion.

3.13 Darparodd yr uned byw heb sylweddau dan gymhelliant (gweler Geirfa) amodau rhesymol i'r rhai a oedd yn dymuno parhau i fod heb sylweddau, a siaradodd carcharorion yn bositif am yr amgylchedd. Serch hynny, roedd angen datblygu'r uned adfer camddefnyddio sylweddau, a oedd yn ffurfio cam cyntaf y llwybr adferiad, ymhellach er mwyn adlewyrchu ethos sy'n canolbwyntio ar adferiad. Roedd arweinwyr yn ymwybodol o hyn ac roedd ganddynt gynlluniau credadwy i gynnig hyfforddiant pellach i staff a oedd yn gweithio yn yr uned.

3.14 Roeddem o'r farn bod y carchar wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y pryder hwn.

## Atal hunanladdiad a hunan-niweidio

**Pryder:** Roedd lefelau'r hunan-niweidio a gofnodwyd yn dal yn uchel, ac nid oedd digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r achosion.

3.15 Ni chafwyd unrhyw farwolaethau hunanachosedig ers yr arolygiad. Serch hynny, roedd cyfradd yr hunan-niweidio a gofnodwyd yn parhau i fod yn weddol debyg, a'r ail uchaf o'r carchardai categori C.

3.16 Mae'n bositif bod arweinwyr bellach yn ymchwilio i achosion o hunan-niweidio difrifol, er na chafodd yr hyn a ddysgwyd ei adolygu i wneud yn siŵr bod newidiadau wedi'u hymgorffori. Roedd gwaith i fynd i'r afael â hyn ar y gweill.

3.17 Roedd arweinwyr wedi nodi'r prif resymau dros hunan-niweidio, ond nid oeddent wedi ymchwilio i hyn ymhellach na datblygu cyfres ddigonol o ymyriadau. Er enghraifft, canfuwyd mai lleddfu straen oedd prif achos hunan-niweidio, ond nid oeddent wedi ystyried sut i ymateb.

3.18 Dangosodd data fod cwtogi ar arferion yn ffactor mawr a oedd yn sbarduno hunan-niweidio, ac er bod y carchar wedi gwella'r cyfathrebu ynglŷn â'r arferion cyfyngedig a oedd ar y gweill, nid oedd hyn wedi effeithio ar y gyfradd. Yn fwy llwyddiannus, roedd y newidiadau i'r ffordd y cafodd addasiadau i feddyginiaethau eu cyfathrebu i garcharorion wedi lleihau nifer yr achosion.

3.19 Roedd cyflwyno mentrau STEP ac Energise i gyfoedion (gweler paragraff 3.6) er mwyn cefnogi'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi, yn addawol. Nododd y rhaglen Energise garcharorion drwy'r cyfarfod diogelwch wythnosol, gan gyfuno gweithgaredd corfforol â datblygiad personol.

3.20 Roedd gan arweinwyr gynlluniau hefyd i sefydlu 'clwb siarad' ac i weithredu'r system AIM (rhybuddio, ymyrryd a monitro). Byddai hyn yn tynnu sylw at newidiadau i arferion carcharorion ac yn nodi ffactorau risg posib, gan ganiatáu i arweinwyr a staff gynnig cymorth rhagweithiol i garcharorion.

3.21 Ar gyfer carcharorion a oedd mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio, roedd gwendidau'n parhau yn y broses rheoli achosion o ran asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT). Yn y dogfennau ACCT a arolygwyd, roedd y cynllunio'n annigonol, nid oedd yr arolygiadau wastad yn amlddisgyblaethol, ac roedd y broses o reoli achosion yn anghyson. Roedd arweinwyr wedi cyflwyno proses sicrhau ansawdd mwy cadarn ers yr arolygiad, ond nid oedd hyn wedi cyflawni digon o welliant eto. Roedd cyflwyno adolygiadau achos gwell i gefnogi hunan-niweidwyr mwy cymhleth neu gyson yn bositif.

3.22 Roeddem o'r farn bod y carchar wedi gwneud cynnydd annigonol yn erbyn y pryder hwn.

## Iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol

**Pryder:** Roedd camau gweithredu gan arweinwyr i ddatrys a lliniaru risgiau a nodwyd i ganlyniadau iechyd wedi bod yn rhy araf. Roedd prinder mannau clinigol addas, yn enwedig ar gyfer deintyddiaeth, ac nid oedd digon o staff yn y carchar i hebrwng carcharorion i'r ysbyty.

3.23 Roedd uwch reolwyr gofal iechyd ac uwch reolwyr carchardai wedi adolygu’r risgiau iechyd a gweithredol yn effeithiol ar ôl yr arolygiad. Un gofrestr risg oedd yn bodoli bellach, wedi'i rhannu a'i hadolygu'n gynhwysfawr. Roedd strwythurau llywodraethu bellach wedi ennill eu plwyf a rhannwyd gwybodaeth allweddol am berfformiad. Trafodwyd heriau gweithredol mewn cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd, gyda chynlluniau gwella yn cael eu hadolygu o ran cynnydd yn erbyn amserlenni. Cafwyd rhai canlyniadau gwell o fewn y gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau (gweler isod). Serch hynny, roedd yr aros hir am apwyntiadau deintyddol a’r nifer fawr o apwyntiadau ysbyty a oedd yn cael eu canslo, heb wella.

3.24 Roedd uwch arweinwyr wedi creu gofod swyddfa a gofod clinigol ychwanegol. Symudwyd y tîm iechyd meddwl eilaidd i ardal fwy diogel o’r carchar, a oedd yn golygu bod lle clinigol ychwanegol ar fin dod ar gael. Byddai hyn yn cynnig 20 sesiwn ychwanegol yr wythnos ar gyfer amrywiaeth o glinigau, a chyfleoedd i ymgynghorwyr allanol drin carcharorion ar y safle.

3.25 Roedd camau y cytunwyd arnynt i geisio lleihau nifer yr apwyntiadau ysbyty a ganslwyd yn canolbwyntio ar ddod ag ymgynghorwyr allanol i mewn. Roedd cynlluniau ar y gweill i niwrolegydd a chardiolegydd ddechrau clinigau yn 2026. Roedd gan hyn y potensial i ddarparu ymyrraeth gynnar ac i wella canlyniadau i rai carcharorion. Serch hynny, nid oedd tystiolaeth o unrhyw gamau i gynyddu'r chwe hebryngwr dyddiol a fyddai’n mynd i’r ysbyty, a oedd yn annigonol i fodloni anghenion y carchar mawr hwn. Roedd yn rhaid aildrefnu nifer o apwyntiadau bob mis.

3.26 Roedd hyfforddiant technoleg gwybodaeth a hwyluswyd yn allanol ar gyfer y system cofnodion clinigol wedi'i drefnu ar gyfer Ebrill 2026.

3.27 Nododd y cynllun gwella gwasanaethau deintyddol y byddai’r carchar yn archwilio’r posibilrwydd o gael uned ddeintyddol symudol eilaidd, ond roedd hyn wedi cael ei roi o’r neilltu. Roedd rhai arolygon mapio prosesau wedi’u cynnal i ddeall pam roedd cymaint yn colli apwyntiadau deintyddol. Nid oedd hyn wedi arwain at unrhyw welliannau hyd yn hyn. Ym mis Rhagfyr 2025, collwyd dros 100 o apwyntiadau oherwydd diffyg presenoldeb. Roedd y rhan fwyaf ar gyfer gofal brys, ac roedd yr amseroedd aros yn amrywio o un diwrnod i sawl mis, i garcharorion na allai gymysgu gydag eraill. Ers yr arolygiad, roedd cyfanswm y bobl a oedd yn aros am ofal arferol wedi cynyddu tua 100.

3.28 Roedd effeithlonrwydd swyddogion hebrwng ar gyfer apwyntiadau gofal iechyd mewnol yn wael. Nid oedd swyddogion yn ceisio casglu cleifion o’r gwaith, ac yn aml, byddai clinigau'n dod i ben yn gynnar, ac nid oedd unrhyw oruchwyliaeth gan uwch staff i atal hyn. Roedd hyn yn golygu bod y gyfradd absenoldeb ar gyfer nifer o glinigau yn annerbyniol o uchel.

3.29 Roeddem o’r farn bod y carchar wedi gwneud cynnydd annigonol yn erbyn y pryder hwn.

**Pryder:** Roedd gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn brin o adnoddau ac nid oeddent yn diwallu anghenion y boblogaeth.

3.30 Roedd y Coleg Seiciatreg Brenhinol wedi cynnal arolwg o'r gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, a gwnaethpwyd rhai argymhellion amlwg. Ychwanegwyd y rhain at gynlluniau gwella. Roedd y ddarpariaeth seiciatreg wedi cynyddu o ddwy sesiwn yr wythnos i 12, gyda 60% ohonynt ar gyfer cleifion, a oedd yn wych. Roedd hyn yn golygu bod llai o oedi ar gyfer asesiadau brys ac asesiadau newydd, ac roedd yr amser aros cyfartalog ar gyfer asesiad nad oedd yn achos brys wedi lleihau 15 wythnos, ac roedd bellach tua chwe wythnos.

3.31 Roedd gwasanaethau gofal iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd Cwm Taf Morgannwg wedi datblygu llwybr atgyfeirio unigol newydd, wedi'i gefnogi gan gyfarfodydd rheolaidd, a oedd wedi gwella'r cyfathrebu rhwng y timau. Roedd gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd bellach yn cofnodi cysylltiadau cleifion ar y system gwybodaeth glinigol, ond, oherwydd diffyg hyfforddiant ffurfiol, nid oeddent eto'n defnyddio'r system yn effeithiol er mwyn rheoli apwyntiadau, rhestrau aros a llwythi achosion.

3.32 Cafwyd cynnydd bach yn nifer y nyrsys iechyd meddwl a gafodd eu recriwtio i'r tîm gofal sylfaenol, ond roedd oedi gyda chliriadau diogelwch wedi ymestyn yr amser aros am ymyriadau. Roedd y targed o 28 diwrnod ar gyfer asesiad cychwynnol yn cael ei fodloni ac roedd y rhai mewn argyfwng yn cael eu gweld yn brydlon.

3.33 Nid oedd ymyriadau seicolegol ar gael o hyd i'r rhai ag anghenion iechyd meddwl mwy cymhleth, ond roedd adolygiad o'r staffio gofynnol wedi'i gynnal ac roedd disgwyl i'r argymhellion gael eu cyhoeddi yn fuan ar ôl ein hymweliad. Roedd ymyriadau seicolegol ar gael i'r rhai a oedd yn derbyn gofal o dan wasanaeth cyffuriau seicogymdeithasol Dyfodol.

3.34 Ychydig iawn o le, os o gwbl, oedd gan wasanaethau iechyd meddwl eilaidd i ddarparu gofal cyfrinachol, a chynhaliwyd sesiynau seiciatreg ar yr adain mewn gofod ad hoc, nad oedd yn deg o'i gymharu â'r gofal cyfatebol yn y gymuned. Roedd yn galonogol bod staff wedi parhau i ddarparu triniaeth o fewn y cyfyngiadau hyn.

3.35 Roedd y fferyllydd-bresgripsiynydd annibynnol ar gyfer camddefnyddio sylweddau dal yn y swydd. Roedd un sesiwn presgripsiynu ychwanegol erbyn hyn, ond roedd y pwysau'n parhau'n uchel. Cyflwynwyd achos busnes i HMPPS er mwyn cynyddu'r adnoddau clinigol, ond daeth hyn i stop, heb unrhyw benderfyniad ynglŷn â chynyddu'r ddarpariaeth ymhellach. Roedd ymgynghoriadau wyneb yn wyneb ac adolygiadau 13 wythnos yn dal yn gyfyngedig iawn.

3.36 Roedd Dyfodol bellach wedi'i staffio'n llawn ar y safle, sydd, ynghyd â'r gostyngiad yn nifer y carcharorion a oedd yn cael eu rheoli am fod dan

ddylanwad (gweler paragraff **Error! Reference source not found.**), wedi galluogi ystod ehangach, a darpariaeth fwy cyson, o ymyriadau.

3.37 Roeddem o'r farn bod y carchar wedi gwneud cynnydd rhesymol yn erbyn y pryder hwn.

## Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mae'r rhan hon o'r adroddiad wedi'i hysgrifennu gan arolygwyr Estyn.

**Pryder:** Nid oedd digon o garcharorion yn mynychu sesiynau addysg, sgiliau neu waith, yn rhannol oherwydd gwendidau o ran dyraniadau ac anghysondebau yn y drefn, ac nid oedd data ar bresenoldeb yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar draws y carchar i ganfod tueddiadau ac i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael.

3.38 Cryfhawyd y cydweithio rhwng Novus Gower a G4S drwy ddatblygu ac ymgorffori systemau newydd er mwyn goruchwylio dyraniadau a phresenoldeb mewn addysg, sgiliau a gwaith.

3.39 Roedd trefniadau cofnodi a dadansoddi data newydd wedi galluogi arweinwyr i fonitro presenoldeb yn fwy effeithiol ar draws carfanau, adain ac ar lefel unigol. Arweiniodd hyn at ddealltwriaeth gliriach o batrymau presenoldeb a diffyg presenoldeb.

3.40 Roedd arweinwyr wedi cymryd camau i archwilio rhwystrau i ymgysylltu mewn sesiynau addysg, sgiliau neu waith drwy ymgynghori â grwpiau bach o bobl nad ydynt yn mynychu. Yn ogystal, roedd prosesau sicrhau ansawdd cryfach wedi galluogi arweinwyr i nodi ac i herio'n fwyfwy achosion o absenoldeb heb awdurdod, gyda chymorth staff preswyl. Gyda'i gilydd, cyfrannodd y camau gweithredu hyn at ostyngiad graddol mewn absenoldeb heb awdurdod dros amser.

3.41 Roedd llwybrau o fewn addysg a gwaith wedi'u hegluro, ac roedd gwybodaeth am gyrsiau a llwybrau dilyniant yn fwy hygyrch drwy brosesau cynefino a chyflwyno technoleg mewn celloedd.

3.42 Roedd gweithredu dangosfwrdd data ar gyfer staff addysg, sgiliau a gwaith wedi cryfhau prosesau dyrannu ymhellach drwy wella cywirdeb, hygyrchedd a rhannu gwybodaeth carcharorion rhwng Novus Gower a G4S. Galluogodd hyn i ddyraniadau gael eu monitro'n ddyddiol, cefnogodd aliniad agosach gydag anghenion a buddiannau carcharorion, a helpodd i nodi a lleihau nifer y carcharorion heb lwybr cyflogaeth dynodedig. O ganlyniad, cynyddodd cyfraddau dyrannu yn sylweddol o fis Mawrth 2025.

3.43 Serch hynny, fe wnaeth cwtogi parhaus ar yr arferion, cau ystafelloedd dosbarth a phrinder athrawon (yn rhannol oherwydd oedi wrth fetio) amharu ar ddysgu ac arweiniodd at golli amser dysgu sylweddol.

3.44 Arweiniodd y tarfu hwn at gyrsiau'n ymestyn y tu hwnt i'r amserlenni gwreiddiol, ac arweiniodd at rai carcharorion yn wynebu oedi wrth gael eu neilltuo i ddarpariaeth addysg ac i ddechrau arni.

3.45 Roedd Estyn o’r farn bod y carchar wedi gwneud cynnydd annigonol yn erbyn y pryder hwn.

**Pryder:** Roedd mynediad i’r llyfrgell yn dal yn rhy gyfyngedig, yn enwedig i’r rheini nad oeddent yn mynychu dosbarthiadau addysg.

3.46 Roedd y ddwy lyfrgell yn parhau i gael eu tanddefnyddio. Roedd gallu’r holl garcharorion i ddefnyddio’r llyfrgell, yn ystod dosbarthiadau addysg ac ar benwythnosau, wedi’i rwystro gan gyfyngiadau ar arferion.

3.47 Mae arweinwyr wedi dechrau gwerthuso presenoldeb carcharorion yn y llyfrgell o ran gwaith, addysg a’r rhai sy’n ddi-waith.

3.48 Roedd bron pob dysgwr mewn addysg yn yr adeilad cyfleusterau yn defnyddio'r llyfrgell unwaith yr wythnos fel rhan o'u hastudiaethau, a oedd yn welliant ers cyfnod yr arolygiad.

3.49 Roedd carcharorion eraill yn gallu defnyddio’r llyfrgell bob yn ail ddydd Sadwrn. Roedd yr arweinwyr wedi addasu'r amserlenni fel nad oedd ymweliadau â’r llyfrgell yn gwrthdaro â sesiynau’r gampfa, er mwyn gwella ymgysylltiad. Serch hynny, roedd llefydd prin ar gael ar gyfer yr ymweliadau hyn ac er bod staff wedi blaenoriaethu'r slotiau hyn ar gyfer y rhai hynny nad oeddent mewn addysg, parhaodd y nifer a gymerodd ran yn isel, yn enwedig ymhlith carcharorion di-waith.

3.50 Roedd mynediad i’r llyfrgell wedi gwella ymhlith carcharorion agored i niwed. Serch hynny, roedd data’r carchar yn y maes hwn yn cael ei gasglu mewn ffordd nad oedd yn caniatáu cymhariaeth uniongyrchol â grwpiau eraill ar draws y carchar.

3.51 Roedd y ddwy lyfrgell yn llefydd dymunol, a oedd wedi'u stocio'n dda gydag amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys llyfrau i ddarllenwyr newydd, llyfrau Cymraeg a llyfrau sain. Roedd y gwasanaeth yn cael ei redeg gan dîm brwdfrydig, a oedd wedi cyflwyno ystod fach o weithgareddau i ysgogi darllen, gan gynnwys ymweliadau gan awduron.




**Un o'r llyfrgelloedd**

3.52 Roedd carcharorion wedi elwa o'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron llechen mewn celloedd, a oedd yn caniatáu iddynt gael mynediad at amrywiaeth o ddeunydd darllen, er bod y dewis o lyfrau yn gyfyngedig. Yn ogystal, roedd ambell garcharor yn defnyddio'r cyfrifiaduron llechen hyn i archebu llyfrau, a oedd yn cael eu dosbarthu i'w celloedd. Roedd ambell adain wedi datblygu ardaloedd darllen bach ar gyfer carcharorion.

3.53 Roeddem o'r farn bod y carchar wedi gwneud cynnydd annigonol yn erbyn y pryder hwn.

**Pryder:** Roedd rhywfaint o'r addysgu'n wan ac nid oedd yn herio'r holl ddysgwyr nac yn cynllunio ar gyfer eu cynnydd.

3.54 Ar y cyfan, roedd y berthynas rhwng staff a dysgwyr yn bositif ac yn cefnogi amgylchedd dysgu tawel a phwrpasol. Yn gyffredinol, roedd athrawon yn gefnogol ac yn cynnig anogaeth, ac yn defnyddio canmoliaeth yn effeithiol i ysgogi dysgwyr.

3.55 Yn y rhan fwyaf o wersi, dangosodd staff amynedd a hiwmor priodol, a helpodd i gynnal ymgysylltiad ac ymddygiad positif. Roedd gan y rhan fwyaf o athrawon ddealltwriaeth gadarn o alluoedd dysgwyr.

3.56 Roedd mentoriaid cyfoedion yn gryfder nodedig o'r ddarpariaeth. Rhoddodd y rhan fwyaf adborth llafar clir ac adeiladol, gan helpu dysgwyr i ddeall sut i wella eu gwaith. Cyfrannodd hyn yn sylweddol at ymgysylltiad a hyder dysgwyr.

3.57 Lle roedd yr addysgu fwyaf effeithiol, roedd athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth am y pwnc yn dda ac yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol a oedd yn cyd-fynd yn dda ag anghenion dysgwyr, gan eu cefnogi'n unigol neu mewn grwpiau bach.

3.58 Serch hynny, roedd ansawdd yr addysgu yn parhau'n anghyson. Lle roedd yr addysgu'n llai effeithiol, roedd gwybodaeth athrawon am bwnc yn wannach ac, o ganlyniad, roeddent yn dibynnu gormod ar daflenni gwaith neu gynlluniau nad oeddent yn cyd-fynd yn dda gydag anghenion dysgwyr yn gyson.

3.59 Roedd gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o ansawdd addysgu a dysgu. Roeddent wedi cryfhau dulliau i sicrhau bod gan yr holl staff ddealltwriaeth gyffredin o fannau cychwyn dysgwyr. Roeddent yn defnyddio cynlluniau datblygu a dysgu proffesiynol yn llwyddiannus i ysgogi gwelliant, cefnogi arweinwyr canol a dwyn staff i gyfrif. Roedd gwelliannau diweddar yn dechrau cael effaith bositif ar gyfraddau llwyddiant grwpiau penodol o ddysgwyr.

3.60 Roeddem o'r farn bod y carchar wedi gwneud cynnydd rhesymol yn erbyn y pryder hwn.

**Pryder:** Nid oedd prosesau hunanwerthuso'r ddarpariaeth addysg, sgiliau a gwaith yn fanwl nac yn gynhwysfawr, gan fethu â blaenoriaethu'r meysydd sydd bwysicaf i sicrhau cynnydd.

3.61 Ers yr arolygiad, mae arweinwyr wedi gwella'r broses o weithio mewn partneriaeth rhwng Novus Gower a G4S. Roedd rhai o'r rhwystrau i rannu gwybodaeth rhwng y ddau sefydliad, a oedd yn amlwg adeg yr arolygiad, wedi cael eu datrys.

3.62 Cafodd prosesau hunanwerthuso eu gwella, gan gynnwys drwy arsylwadau traws-ddarparwyr ac arbenigedd defnyddiol Coleg Gŵyr Abertawe a Novus.

3.63 Roedd yn briodol bod yr adroddiad hunanwerthuso yn hunanfeirniadol ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Roedd y cynllun datblygu ansawdd yn fanwl ac yn cyd-fynd yn dda â'r meysydd a amlygwyd i'w gwella.

3.64 Roedd 'grŵp gwella ansawdd' traws-ddarparwyr wedi'i ffurfio ac wedi adolygu cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn briodol.

3.65 Roedd gweithgareddau dysgu proffesiynol defnyddiol, a oedd yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau, wedi digwydd ac wedi cael croeso cynnes gan staff.

3.66 Roedd prosesau hunanwerthuso gwell, cynllunio gwelliannau a dysgu proffesiynol yn dechrau cael effaith ar ansawdd yr addysgu a'r canlyniadau i ddysgwyr.

3.67 Roeddem o'r farn bod y carchar wedi gwneud cynnydd rhesymol yn erbyn y pryder hwn.

## Lleihau ail-droseddu

**Pryderon:** Nid oedd digon yn cael ei wneud i gefnogi carcharorion i leihau eu risg, neu i wneud cynnydd o ran eu dedfryd. Nid oedd y cyswllt â’r rheolwyr troseddwyr yn digwydd yn aml, ac nid oedd gwaith allweddol yn cefnogi’r gwaith o reoli troseddwyr.

3.68 Parhaodd y sefydliad i gadw poblogaeth gymhleth ac amrywiol, a oedd yn her o ran rheoli troseddwyr. Roedd y rhain yn cynnwys carcharorion ar remánd, heb eu dedfrydu ac wedi’u dedfrydu, yn ogystal ag adalwadau trwyddedig, oedolion ifanc, dinasyddion tramor, carcharorion wedi’u heuogfarnu o droseddau rhywiol a'r rhai ar ddedfrydau amhenodol.

3.69 Roedd yr uned rheoli troseddwyr (OMU) yn parhau i fod wedi'i chyfyngu gan heriau staffio parhaus, gan gynnwys newidiadau yn yr arweinyddiaeth a phrinder rheolwyr troseddwyr mewn carchardai a gyflogir gan y gwasanaeth prawf (POMs), oherwydd salwch hirdymor a swyddi gwag heb eu llenwi.

3.70 Tra bod arweinwyr OMU newydd gyflwyno mesurau i fonitro ac ysgogi gwelliannau o ran amlder y cysylltiad rhwng POM a charcharorion, parhaodd yr ymgysylltiad yn anghyson.

3.71 Roedd llwyth achosion POM dal yn uchel, yn enwedig o ystyried risg a chymhlethdod yr achosion a reolwyd ganddynt. Prin oedd y cysylltiad â charcharorion, roedd yn adweithiol i ddigwyddiadau amserol ac nid oedd yn cynnig cyfleoedd digonol ar gyfer cynllunio neu ddatblygu ystyrlon o ran dedfrydau. Yn yr achosion a adolygwyd gennym, roedd rhai carcharorion heb gael unrhyw gysylltiad o gwbl â POM ers sawl mis, ac nid oedd eraill wedi derbyn dim ers cyrraedd y carchar. Parhaodd y diffyg ymgysylltiad hwn i fod yn ffynhonnell o rwystredigaeth i nifer o’r carcharorion y gwnaethom siarad â nhw.

3.72 Roedd y defnydd o waith allweddol (gweler Geirfa) wedi datblygu ers yr arolygiad. Ar bob uned breswyl, cafodd carfan fach o garcharorion a oedd wedi cael eu hadnabod fel rhai cymhleth neu agored i niwed, weithiwr allweddol pwrpasol wedi’i neilltuo i bob un. Serch hynny, roedd ansawdd y sesiynau'n amrywio'n sylweddol ac nid oeddent eto'n ddigon cefnogol o’r gwaith o reoli troseddwyr. Roedd mesurau sicrhau ansawdd i fonitro effeithiolrwydd y gwaith hwn wedi'u cyflwyno'n ddiweddar.

3.73 Roeddem o'r farn bod y carchar wedi gwneud cynnydd annigonol yn erbyn y pryder hwn.

## Diogelu’r cyhoedd

**Pryder:** Roedd bylchau yn y trefniadau diogelu’r cyhoedd. Roedd oedi o ran cynnal gwiriadau carcharorion newydd, roedd y trefniadau ar gyfer monitro cysylltiedig â throseddau yn annigonol, ac roedd yr oruchwyliaeth cyn rhyddhau’r carcharorion a oedd yn peri’r risg fwyaf yn annigonol..

3.74 Cafwyd ambell arwydd cynnar o welliant yn nealltwriaeth a rheolaeth y carchar o drefniadau diogelu'r cyhoedd, ond roedd rhai meysydd o bryder yn parhau.


3.75 Cafodd goruchwyliaeth ei chryfhau drwy benodiad diweddar cydlynydd diogelu'r cyhoedd ac ailsefydlu'r grŵp llywio diogelu'r cyhoedd, a gynlluniwyd i ddarparu llywodraethiant i uwch reolwyr yn y maes hwn.

3.76 Er bod cwmpas cyfarfod y tîm rheoli risg rhyngadrannol yn dal i gael ei ddatblygu, roedd presenoldeb gwell ynddo bellach ac roedd yn darparu goruchwyliaeth well o ran cynllunio i ryddhau rhai o’r carcharorion sy’n peri’r risg uchaf. Serch hynny, nid oedd y broses ar gyfer dewis achosion i'w hadolygu yn ddigon clir na systematig.

3.77 Roedd yr oedi wrth gwblhau gwiriadau trosglwyddo ar gyfer carcharorion newydd yn parhau. Roedd y rhain yn bennaf oherwydd prinder capasiti staff, bylchau o ran sgiliau a phrofiad o fewn y tîm gweinyddu achosion, a'r nifer fawr o garcharorion a oedd yn cyrraedd o garchardai eraill heb y gwaith papur angenrheidiol. O ganlyniad, nid oedd ffactorau risg allweddol wastad yn cael eu nodi, eu cofnodi, eu rhannu nac yn cael eu gweithredu’n brydlon, gan greu bylchau o ran rheoli risg a  chyfyngu ar allu staff i ddefnyddio rheolaethau priodol yn gynnar yn nedfryd carcharor. Roedd arweinwyr wedi datblygu achos busnes yn ddiweddar i sicrhau adnoddau ychwanegol mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r diffygion hyn.

3.78 Er gwaethaf cydweithio gwell rhwng yr adran ddiogelwch a’r OMU, nid oeddem yn hyderus bod prosesau sgrinio wedi bod yn briodol wrth nodi pawb y dylid bod wedi'u hystyried ar gyfer monitro sy’n gysylltiedig â throseddau. Cafwyd oedi wrth fonitro’r cyfathrebu, a olygai nad oedd risgiau wastad yn cael eu nodi a'u gweithredu'n gyflym, ac nid oedd awdurdodiadau ac adolygiadau wastad yn brydlon.

3.79 Mae cyflwyno cyfrifiaduron llechen mewn celloedd wedi bod yn fenter bositif i garcharorion. Serch hynny, ychwanegodd at yr oedi o ran monitro oherwydd bod y dyfeisiau yn gallu derbyn ac anfon negeseuon testun, a gynyddodd nifer y cysylltiadau yr oedd angen eu monitro’n sylweddol.




**Cyfrifiadur llechen mewn celloedd**

3.80 Roeddem o'r farn bod y carchar wedi gwneud cynnydd annigonol yn erbyn y pryder hwn.

# Section 4 Crynodeb o'r dyfarniadau

Rhestr o bryderon yr aethpwyd ar eu trywydd yn ystod yr ymweliad hwn a'r dyfarniadau a wnaed.

## Argymhellion

Roedd nifer y digwyddiadau treisgar yn uchel. Roedd dealltwriaeth arweinwyr o'r achosion yn gyfyngedig ac nid oedd eu hymateb wedi cael effaith eto.
**Cynnydd annigonol**

Roedd argaeledd a'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon yn gyffredin. Roedd bron i draean o holl ganlyniadau hapbrofion cyffuriau yn gadarnhaol ac, yn ein harolwg, dywedodd dros hanner y carcharorion ei bod yn hawdd cael cyffuriau yn y carchar.
**Cynnydd da**

Roedd lefelau'r hunan-niweidio a gofnodwyd yn dal yn uchel, ac nid oedd digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r achosion.
**Cynnydd annigonol**

Roedd camau gweithredu gan arweinwyr i ddatrys a lliniaru risgiau a nodwyd i ganlyniadau iechyd wedi bod yn rhy araf. Roedd prinder mannau clinigol addas, yn enwedig ar gyfer deintyddiaeth, ac nid oedd digon o staff yn y carchar i hebrwng carcharorion i'r ysbyty.
**Cynnydd annigonol**

Roedd gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn brin o adnoddau ac nid oeddent yn diwallu anghenion y boblogaeth.
**Cynnydd rhesymol**

Nid oedd digon o garcharorion yn mynychu sesiynau addysg, sgiliau neu waith, yn rhannol oherwydd gwendidau o ran dyraniadau ac anghysondebau yn y drefn, ac nid oedd data ar bresenoldeb yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar draws y carchar i ganfod tueddiadau ac i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael.
**Cynnydd annigonol**

Roedd mynediad i'r llyfrgell yn dal yn rhy gyfyngedig, yn enwedig i'r rheini nad oeddent yn mynychu dosbarthiadau addysg.
**Cynnydd annigonol**

Roedd rhywfaint o'r addysgu'n wan ac nid oedd yn herio'r holl ddysgwyr nac yn cynllunio ar gyfer eu cynnydd.
**Cynnydd rhesymol**

Nid oedd prosesau hunanwerthuso'r ddarpariaeth addysg, sgiliau a gwaith yn fanwl nac yn gynhwysfawr, gan fethu â blaenoriaethu'r meysydd sydd bwysicaf i sicrhau cynnydd.
**Cynnydd rhesymol**

Nid oedd digon yn cael ei wneud i gefnogi carcharorion i leihau eu risg, neu i wneud cynnydd o ran eu dedfryd. Nid oedd y cyswllt â’r rheolwyr troseddwyr yn digwydd yn aml, ac nid oedd gwaith allweddol yn cefnogi’r gwaith o reoli troseddwyr.
**Cynnydd annigonol**

Roedd bylchau yn y trefniadau diogelu’r cyhoedd. Roedd oedi o ran cynnal gwiriadau carcharorion newydd, roedd y trefniadau ar gyfer monitro cysylltiedig â throseddau yn annigonol, ac roedd yr oruchwyliaeth cyn rhyddhau’r carcharorion a oedd yn peri’r risg fwyaf yn annigonol.
**Cynnydd annigonol**

# Appendix I Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn sefydliad annibynnol, statudol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cyfleusterau cadw mewnfudwyr, dalfa'r llysoedd a dalfeydd milwrol.

Mae pob ymweliad a wneir gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol dan y Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Mae OPCAT yn mynnu bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob man sy'n cadw pobl yn gaeth. Yr enw a roddir am hyn yw Mecanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) ac mae'n monitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn un o nifer o gyrff sy'n ffurfio'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn y DU.

Mae adolygiadau annibynnol o gynnydd wedi'u cynllunio i wella atebolrwydd i weinidogion am y cynnydd y mae carchardai'n ei wneud at fynd i'r afael â phryderon Arolygiaeth Carchardai EF rhwng arolygiadau. Cynhelir yr adolygiadau yma yn ôl disgresiwn y Prif Arolygydd, pan fydd arolygiad llawn yn awgrymu y byddai'r carchar yn elwa o graffu ychwanegol ac yn canolbwyntio ar nifer cyfyngedig o'r pryderon a godwyd yn yr arolygiad. Felly, nid yw adolygiadau annibynnol o gynnydd yn arwain at asesiadau yn erbyn ein profion carchar iach. Mae profion carchar iach Arolygiaeth Carchardai EF yn cynnwys diogelwch, parch, gweithgarwch pwrpasol a chynllunio camau adsefydlu a rhyddhau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: Disgwyliadau – Arolygiaeth Carchardai EF (justiceinspectorates.gov.uk)

Nodau'r Adolygiadau Annibynnol o Gynnydd yw:

- asesu cynnydd yn erbyn y flaenoriaeth a ddewiswyd a'r prif bryderon
- cefnogi gwelliant
- nodi unrhyw anawsterau sy'n dod i'r amlwg neu ddiffyg cynnydd yn gynnar
- asesu digonolrwydd yr ymateb o ran arwain a rheoli i'n pryderon yn yr arolygiad llawn.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb gan y Prif Arolygydd a chofnod byr o'n canfyddiadau mewn perthynas â phob argymhelliad rydym wedi'i ddilyn. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r darllenydd gyfeirio at adroddiad yr arolygiad llawn a gynhaliwyd ym [MIS, BLWYDDYN] i gael rhagor o fanylion am y canfyddiadau gwreiddiol (ar gael ar ein gwefan yn Ein hadroddiadau – Arolygiaeth Carchardai EF (justiceinspectorates.gov.uk)).

## Methodoleg yr Adolygiad Annibynnol o Gynnydd

Mae'r adolygiadau'n cael eu cyhoeddi o leiaf dri mis ymlaen llaw ac yn cael eu cynnal rhwng wyth a 12 mis ar ôl arolygiad llawn. Pan fyddwn yn cyhoeddi adolygiad annibynnol o gynnydd, rydym yn nodi pa bryderon rydym yn bwriadu mynd ar eu trywydd (dim mwy na 15 fel arfer). Yn dibynnu ar y pryderon sydd i'w dilyn, gellir cynnal ymweliadau Adolygiadau Annibynnol o Gynnydd ar y cyd

ag Ofsted (Lloegr), Estyn (Cymru), y Comisiwn Ansawdd Gofal a’r Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Mae’r gwaith hwn ar y cyd yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio ac yn osgoi sawl ymweliad arolygu.

Yn ystod ein hymweliad tri diwrnod, rydym yn casglu amrywiaeth o dystiolaeth am y cynnydd o ran gweithredu pob pryder a ddewiswyd. Mae ffynonellau tystiolaeth yn cynnwys arsylwi, trafodaethau â charcharorion, staff a thrydydd partïon perthnasol, dogfennau a data.

Mae pob pryder sy’n cael ei olrhain gan Arolygiaeth Carchardai EF yn ystod adolygiad yn cael un o bedwar dyfarniad cynnydd:

**Dim cynnydd ystyrlon**
Nid oedd arweinwyr wedi llunio, darparu adnoddau na dechrau gweithredu strategaeth wella realistig i fynd i'r afael â'r pryder hwn.

**Cynnydd annigonol**
Roedd arweinwyr wedi dechrau gweithredu strategaeth wella realistig (er enghraifft, gyda systemau a phrosesau gwell ac wedi'u hymgorffori), ond roedd canlyniadau carcharorion yn gwella'n rhy araf neu heb wella o gwbl.

**Cynnydd rhesymol**
Roedd arweinwyr yn gweithredu strategaeth wella realistig, gyda thystiolaeth o gynnydd cynaliadwy a rhywfaint o welliant cynnar o ran canlyniadau ar gyfer carcharorion.

**Cynnydd da**
Roedd arweinwyr eisoes wedi gweithredu strategaeth wella realistig i fynd i'r afael â'r pryder hwn ac wedi cyflawni gwelliant clir o ran canlyniadau ar gyfer carcharorion.

## Y Tîm Arolygu

Cynhaliwyd yr adolygiad annibynnol hwn o gynnydd gan:

| | |
|---|---|
| Donna Ward | Arweinydd tîm |
| Jade Richards | Arolygydd |
| Harriet Leaver | Arolygydd |
| Sumayyah Hassam | Arolygydd |
| Tania Osborne | Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol |
| Rachel Hackling | Arolygydd Estyn |
| Steve Bell | Arolygydd Estyn |
| Richard Murray | Arolygydd Estyn |

# Appendix II Geirfa

Rydyn ni'n ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosib, a dylai'r rhestr hon helpu i egluro rhai o'r termau arbenigol y gallech ddod ar eu traws.

**Cynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP)**
Caiff ei ddefnyddio gan bob carchar i oedolion i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu sy'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Rheolir a chefnogir y carcharorion hyn gyda chynllun sydd â thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Nid yw achos pawb sy'n dreisgar yn cael ei reoli ar CSIP. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi'r rheini sydd wedi dioddef trais.

**Unedau byw heb sylweddau dan gymhelliant (ISFL)**
Unedau pwrpasol yn y carchar ar gyfer carcharorion sy'n ymrwymo i fyw bywyd heb gyffuriau. Mae preswylwyr yn cytuno i gytundeb ymddygiad, yn cael profion cyffuriau rheolaidd, ac yn derbyn cymhellion fel amser ychwanegol o'r gell neu fynediad at weithgareddau. Mae unedau ISFL yn cynnig amgylchedd strwythuredig sy'n hyrwyddo adferiad, perthnasoedd positif, a dewisiadau iachach.

**Cynllun gweithiwr allweddol**
Mae'r cynllun gweithiwr allweddol yn gweithredu ar draws yr ystâd gaeedig i ddynion ac mae'n un elfen o'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC). Mae gan bob swyddog carchardai lwyth achosion o tua chwe charcharor. Y nod yw galluogi staff i ddatblygu perthynas adeiladol, ysgogol gyda charcharorion, sy'n gallu eu cefnogi a'u hannog i weithio tuag at nodau adsefydlu positif.

**Arweinydd**
Yn yr adroddiad hwn mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli yn y system garchardai. Byddwn yn cyfeirio ein naratif at lefel yr arweinyddiaeth sydd â'r capasiti mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniad penodol.

**Rheoli troseddwyr yn y ddalfa (OMiC)**
Mae'r model rheoli troseddwyr yn y ddalfa (OMiC), sydd wedi'i gyflwyno ym mhob carchar i oedolion, yn golygu bod swyddogion carchardai yn cynnal sesiynau gwaith allweddol gyda charcharorion (a roddwyd ar waith yn ystod 2018–19) ac yn rheoli achosion, a sefydlodd rôl rheolwr troseddwyr y carchar (POM) o 1 Hydref 2019. Ar 31 Mawrth 2021, cyflwynwyd model OmiC penodol ar gyfer carchardai agored i ddynion, nad yw'n cynnwys gwaith allweddol.

Hawlfraint y Goron 2026

Mae’r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu:hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael i’w lawrlwytho yn: Ein hadroddiadau – Arolygiaeth Carchardai EF (justiceinspectorates.gov.uk)

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai EF
3rd floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU
England

Mae pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EF oni nodir yn wahanol.